**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Addysg

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 18 Chwefror 2020 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | S J Gallagher | L S Gibbard |
| D W Helliwell | L James | S M Jones |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | | |

**Mynychwyr eraill**

| | |
|---|---|
| J A Raynor | Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |
| Brian Roles | Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau Addysg |
| Nick Williams | Cyfarwyddwr Addysg |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): A M Day, M Durke, B Hopkins, M A Langstone a/ac L J Tyler-Lloyd
Aelodau Cyfetholedig(wyr): A Roberts

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Datganodd y Cyng. Susan Jones gysylltiad personol ag eitem 4.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r**

Dim

3 **Craffu ar y gyllideb flynyddol: am ei bod yn ymwneud â materion br addysg**

Diolchodd y Panel i Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau, Nick Williams, y Prif Swyddog Addysg a Brian Roles, Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau am ddod i gyfarfod y panel i drafod y gyllideb flynyddol mewn perthynas â materion addysg.

## 4 Crynhoi Barn a Chyflwyno Argymhellion

Yn dilyn y drafodaeth ag Aelod y Cabinet a'r Swyddogion, cytunodd y Panel ar y pwyntiau isod i'w cyflwyno i'r Cabinet ar 20 Chwefror. Byddant yn cael eu cynnwys yn llythyr Cynullydd Panel Craffu Gwella Gwasanaethau a Pherfformiad Cyllid.

1. Rydym yn falch fod Addysg yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau Cyngor Abertawe, oherwydd rydym yn teimlo ei fod yn bwysig ein bod yn gwneud y gorau o'r Fargen Ddinesig wrth i ni baratoi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
2. Rydym yn falch o glywed y bydd rhagor o arian yng nghyllideb addysg ac ysgolion a fydd yn talu am grant tâl athrawon, costau pensiynau athrawon a chodiad cyflog staff nad ydynt yn addysgu. Rydym hefyd yn falch o glywed am y grant o £4 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer atgyweiriadau cynnal a chadw cyfalaf.
3. Cytunom gydag Aelod y Cabinet fod y dyheadau am setliad cyllidebol tair blynedd ar gyfer addysg yn bwysig ac rydym yn credu bod angen i ni achub ar bob cyfle i ymladd dros hyn. Ni ellir tanbrisio'r fantais o'r gallu i ysgolion (a'r adran addysg ehangach) gynllunio dros dair blynedd.
4. Roeddem yn falch o glywed am y gwaith a wnaed ag ysgolion cynradd ac uwchradd a rhyngddynt, ac am y fforwm cyllideb yn dilyn setliad cyllidebol. Roeddem yn teimlo y dylid llongyfarch ysgolion am eu diwylliant o gydweithio, nid yn unig yn yr achos hwn ond wrth iddynt gefnogi ei gilydd er mwyn llwyddo.
5. Hoffem ddiolch i ysgolion, llywodraethwyr a'r Gwasanaeth Gwella Addysg am eu gwaith gwych dros y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig wrth iddynt wynebu heriau a symud ymlaen, a darparu addysg o safon yma yn Abertawe.
6. Rydym yn falch o glywed am y troedffyrdd/llwybrau beicio sy'n cael eu datblygu ar draws Abertawe. Fodd bynnag, cafwyd pryder ynghylch y cynigion i gael gwared ar gludiant ysgol am ddim oherwydd y rhesymau canlynol:
   a) Goleuadau a diogelwch ar y llwybrau cerdded yn y gaeaf oherwydd ein rôl diogelu disgyblion.
   b) Cynnydd posib yn swm y traffig o amgylch yr ysgolion hynny, oherwydd efallai y bydd rhieni'n dechrau gyrru eu plant i'r ysgol pan na fydd y bysus ar gael mwyach.
   c) Roeddem yn bryderus bod yr arbedion posib a amcangyfrifir oherwydd bod darpariaeth y bysus ysgol yn yr ardaloedd hyn eisoes wedi'i ddiystyru yn y gyllideb.

Materion ar gyfer ymateb Aelod y Cabinet:

Pa mor sicr ydych chi y caiff yr arbedion a nodwyd mewn perthynas â'r tri llwybr cerdded diogel i'r ysgol eu cyflawni ac os na fyddant, pa effaith a geir ar gyllideb gyffredinol yr adran Addysg?

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10am